Cael gwared â deunyddiau a dyddodion drwy chwistrellu dŵr

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â chael gwared â deunyddiau a dyddodion drwy chwistrellu dŵr ar gyflymder a phwysedd uchel, dewis, paratoi a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar cysylltiedig, dehongli gwybodaeth, a mabwysiadu arferion gweithio diogel ac iach sy'n amgylcheddol gyfrifol.

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes galwedigaethol Chwistrellu Dŵr a gall gweithredwyr, goruchwylwyr a rheolwyr ei defnyddio.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

P1 dehongli'r wybodaeth a roddwyd am y gwaith a'r adnoddau er mwyn cadarnhau pa mor berthnasol yw

P2 cydymffurfio â’r canllawiau swyddogol a’r ddeddfwriaeth berthnasol a roddwyd wrth wneud y gwaith a dilyn arferion gweithio diogel ac iach

P3 dewis faint o adnoddau sydd eu hangen arnoch ar gyfer y dulliau gweithio ac ansawdd gofynnol yr adnoddau hynny

P4 cydymffurfio â gweithdrefnau sefydliadol er mwyn lleihau'r perygl o ddifrod i'r gwaith a'r ardal gyfagos

P5 cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn effeithlon ac yn unol â'r fanyleb

P6 cwblhau'r gwaith o fewn yr amser a neilltuwyd ar ei gyfer, yn unol â'r rhaglen waith

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Meini Prawf Perfformiad 1**
**Dehongli gwybodaeth**
G1 gweithdrefnau a luniwyd gan y sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am **wybodaeth** amhriodol ac **adnoddau** anaddas a'u cywiro, a sut y mae'r rhain yn cael eu defnyddio
G2 y mathau o **wybodaeth**, eu ffynhonnell a sut maent yn cael eu dehongli
G3 gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer datrys **problemau** gyda'r **wybodaeth** a pham ei bod yn bwysig dilyn y gweithdrefnau hynny

**Meini Prawf Perfformiad 2**
**Arferion gweithio diogel**
G4 lefel y **ddealltwriaeth** y mae angen i weithredwyr ei chael o **wybodaeth** am **ddeddfwriaeth a chanllawiau swyddogol** perthnasol cyfredol a sut mae eu defnyddio

G5 y mathau o **ddiffoddwyr tân** sy'n bodoli a sut a pha bryd mae defnyddio'r rhain
G6 sut mae ymateb i **argyfyngau** a phwy ddylai ymateb iddynt
G7 **gweithdrefnau diogelwch** y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol
G8 beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud yr adroddiad
G9 pam, pryd a sut y dylid defnyddio **cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch**
G10 sut mae cydymffurfio ag arferion gweithio sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni **deddfwriaeth a chanllawiau swyddogol** cyfredol

**Meini Prawf Perfformiad 3**
**Dewis adnoddau**
G11 nodweddion, ansawdd, ffyrdd o ddefnyddio, cynaliadwyedd, cyfyngiadau a diffygion sy'n gysylltiedig â'r **adnoddau** a sut mae cywiro diffygion
G12 sut mae defnyddio'r **adnoddau** a sut mae rhoi gwybod am unrhyw **broblemau** sy'n gysylltiedig â'r **adnoddau**
G13 gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis **adnoddau**, pam maen nhw wedi cael eu llunio a sut mae eu defnyddio
G14 y **peryglon** sy'n gysylltiedig â'r **adnoddau** a'r **dulliau gweithio** a sut mae goresgyn y rhain

**Meini Prawf Perfformiad 4**

**Lleihau'r perygl o ddifrod**

G15. sut mae **diogelu gwaith** rhag difrod a diben diogelu K16 pam y dylid **cael gwared â gwastraff** mewn ffordd ddiogel a sut mae gwneud hyn

**Meini Prawf Perfformiad 5**

**Bodloni manyleb y contract**

G17 sut mae **dulliau gweithio**, er mwyn bodloni'r fanyleb, yn cael eu defnyddio a sut mae rhoi gwybod am **broblemau**

G18 sut mae mynd ati i **gynnal a chadw** offer a chyfarpar

**Meini Prawf Perfformiad 6**

**Amser a neilltuwyd**

G19 beth yw'r **rhaglen** ar gyfer gwneud y gwaith o fewn yr amser a amcangyfrifwyd ac a neilltuwyd a pham y dylid cadw at y terfynau amser a bennwyd

## Cwmpas/Ystod

**Maen Prawf Perfformiad 1**

1. dehongli lluniadau, manylebau, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau o risg, deddfwriaeth gyfredol, Codau Ymarfer, cyfarwyddiadau gweithredu a gwybodaeth y gwneuthurwyr sy'n berthnasol i'r gwaith sydd i'w wneud

**Meini Prawf Perfformiad 2**

2. osgoi risg drwy gydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd am y canlynol
2.1 dulliau gweithio
2.2 defnyddio offer rheoli iechyd a diogelwch yn ddiogel
2.3 gosod a chynnal mesurau diogelwch ar gyfer yr ardal waith
2.4 defnyddio, storio a thrin deunyddiau, offer a chyfarpar yn ddiogel
2.5 risgiau penodol i iechyd

**Meini Prawf Perfformiad 3**

3. dewis adnoddau sy'n gysylltiedig â'i waith ei hun
3.1 deunyddiau a sylweddau
3.2 offer, peiriannau chwistrellu dŵr ac offer ategol

**Meini Prawf Perfformiad 4**

4. diogelu'r gwaith a'r ardal gyfagos rhag difrod
5. cadw'r man gwaith yn daclus ac yn glir
6. cael gwared â gwastraff yn unol â deddfwriaeth gyfredol

**Meini Prawf Perfformiad 5**

7. dangos sgiliau gwaith ar gyfer chwistrellu, cyfarwyddo, gwirio, monitro a gwerthuso
8. defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pweredig cludadwy, offer chwistrellu dŵr a chyfarpar ategol
9. defnyddio offer chwistrellu dŵr i gael gwared â deunyddiau a dyddodion yn unol â'r cyfarwyddiadau gwaith a roddwyd ar gyfer un o'r canlynol
9.1 draeniau a charthffosydd
9.2 tiwbiau a phibelli
9.3 paratoi arwynebau a'u glanhau

**Meini Prawf Perfformiad 6**

10. cwblhau ei waith ei hun o fewn yr amser a amcangyfrifwyd ac a neilltuwyd er mwyn diwallu anghenion cleientiaid neu/a galwedigaethau eraill

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

**Gwaredu gwastraff**

1. cyfrifoldebau amgylcheddol, gweithdrefnau sefydliadol, gwybodaeth gwneuthurwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

**Argyfyngau**

2. ymateb gweithredwr i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad y sefydliad a sgiliau personol wrth ymdrin â
2.1 thanau, gollyngiadau, anafiadau
2.2 argyfyngau perthnasol i weithgareddau galwedigaethol

**Diffoddwyr tân**

3. dŵr, C02, ewyn, powdr a phryd y dylid eu defnyddio

**Peryglon**

4. y rheini sy’n cael eu canfod drwy asesiad o risg, dulliau gweithio, gwybodaeth dechnegol y gwneuthurwr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

**Offer rheoli iechyd a diogelwch**

5. fel y nodir yn yr egwyddorion atal at ddefnydd galwedigaethol, mathau a phwrpas pob math o offer, sefyllfaoedd gwaith ac amgylchedd gwaith cyffredinol
5.1 mesurau diogelu cyfunol
5.2 cyfarpar diogelu personol
5.3 cyfarpar diogelu anadlol
5.4 systemau awyru lleol sy'n gwacáu mygdarth

**Gwybodaeth**

6. lluniadau, manylebau, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau o risg, deddfwriaeth gyfredol, Codau Ymarfer, canllawiau swyddogol, cyfarwyddiadau gweithredu a gwybodaeth y gwneuthurwr

**Deddfwriaeth a chanllawiau swyddogol**

7. mae'r rhain yn ymwneud â chyfrifoldebau'r gweithredwr yng nghyswllt damweiniau posibl, peryglon i iechyd a'r amgylchedd wrth weithio yn y gweithle, ar lefel is na'r llawr daear, mewn mannau cyfyng, ar uchder, gydag offer a chyfarpar, gyda deunyddiau a sylweddau, wrth symud a storio deunyddiau drwy godi a chario ac wrth ddefnyddio offer a pheiriannau codi

**Cynnal a chadw**

8. cyfrifoldebau'r gweithredwr o ran gofalu am offer llaw, offer pweredig cludadwy, cyfarpar chwistrellu dŵr ac offer atodol

**Dulliau gweithio**

9. defnyddio gwybodaeth er mwyn sicrhau arferion, gweithdrefnau a sgiliau gweithio diogel ac iach yng nghyswllt y dull gweithio a'r ardal waith a'r deunyddiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y canlynol:
9.1 paratoi a defnyddio offer chwistrellu dŵr i lanhau ac i gael gwared â dyddodion a deunyddiau o ddraeniau, carthffosydd, tiwbiau a phibelli (brics, clai, concrid, plastig, ffibr pyg, metelau fferrus ac anfferrus)
9.2 paratoi a defnyddio offer chwistrellu dŵr i gael gwared â deunyddiau a dyddodion wyneb o: goncrid, meini nadd, carreg, craig, metelau fferrus ac anfferrus
9.3 monitro a gwerthuso newidiadau i wynebau a strwythurau
9.4 sicrhau diogelwch dros dro
9.5 monitro offer chwistrellu dŵr ar sail gofynion perfformiad
9.6 darparu gwybodaeth ar gyfer Modelu Gwybodaeth am Adeiladau 9.6 gweld pan fo angen gwybodaeth a sgiliau arbenigol a phennu'r rheini ac adrodd yn unol â hynny
9.7 pennu gofynion penodol ar gyfer strwythurau o ddiddordeb arbennig, adeiladau traddodiadol (cyn 1919) ac arwyddocâd hanesyddol
9.8 nodi a dilyn y gofynion o ran ansawdd
9.9 gweithio gyda, yng nghyffiniau ac yn agos at offer a pheiriannau 9.10 cyfarwyddo ac arwain y gwaith o weithredu a symud offer a pheiriannau
9.11 defnyddio offer llaw, offer pweredig cludadwy, offer chwistrellu dŵr: systemau awtomatig neu led-awtomatig, ac offer ategol
9.12 gweithio ar uchder
9.13 defnyddio offer mynediad
10. gwaith tîm a chyfathrebu
11. anghenion galwedigaethau eraill sy'n gysylltiedig â chael gwared â deunyddiau a dyddodion drwy chwistrellu dŵr

**Problemau**

12. y rheini sy'n codi yn sgil gwybodaeth, adnoddau a dulliau gwaith
12.1 ei awdurdod ei hun o ran cywiro
12.2 gweithdrefnau adrodd y sefydliad

**Rhaglen**

13. mathau o adroddiadau ar gynnydd, amserlenni ac amcangyfrif o amseroedd
14. gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith

**Diogelu gwaith**

15. diogelu gwaith rhag difrod yn sgil gweithgareddau cyffredinol y gweithle, galwedigaethau eraill a thywydd gwael

**Adnoddau**

16. deunyddiau, cydrannau neu ffitiadau a chyfarpar sy'n berthnasol i fathau, nifer, ansawdd, maint a chynaliadwyedd yr adnoddau safonol a/neu arbenigol
16.1 dŵr, tanwydd, pŵer, cemegion, deunyddiau sgrafellog, ireidiau, oeryddion, deunyddiau a chyfarpar diogelu
16.2 rhwystrau, giardiau, pympiau, cydosodiadau pibelli, chwistrellau, tiwbiau, falfiau rheoli, trwynau pibelli a chyfarpar diogelwch
16.3 offer llaw, offer pweredig cludadwy, offer chwistrellu dŵr: systemau awtomatig neu led-awtomatig, ac offer ategol
17. cadarnhau bod adnoddau a deunyddiau'n cydymffurfio â'r fanyleb
18. dulliau o gyfrifo maint, hyd, arwynebedd, gostyngiad yn y pwysedd, ôl-bwysedd, grym adweithio a faint o ddeunyddiau sy'n cael eu gwastraffu o safbwynt y dull a'r weithdrefn ar gyfer cael gwared â deunyddiau a dyddodion drwy chwistrellu dŵr

**Gweithdrefnau diogelwch**

19. safle, gweithle, cwmni, gweithredwyr a cherbydau

Cael gwared â deunyddiau a dyddodion drwy chwistrellu dŵr

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Energy & Utility Skills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Construction Skills |
| **RCU gwreiddiol** | VR85 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Galwedigaethau sy'n ymwneud â Phrosesau Glanhau Diwydiannol |
| **Cyfres/Set** | Galwedigaethau Gwasanaethau Diwydiannol Cysylltiol (Adeiladu) |
| **Geiriau Allweddol** | Glanhau; Draeniau; Carthffosydd |